Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **11 Medi** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid (PSC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Gavin Lemon, Adran Safonau Proffesiynol (GL)<br>Jayne Butler, Swyddog Staff (JB)<br>Miss Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 14/08/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2324** | **Y Bwrdd Ystadau a Bwrdd Plismona'r dyfodol i ystyried achos busnes dros adeiladu ffens berimedr o amgylch Pencadlys yr Heddlu.** | **Yn parhau** |
| **PB 2325** | **MH i roi manylion cyswllt cynghorwyr tref Llanelli i GB mewn perthynas â gwaith gyda'r Timau Plismona Bro yng nghwmpasoedd Llanelli.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2326** | **CAA i ddiweddaru'r PSC ar gyfleoedd ariannu Fferm Wynt Brechfa** | **Y cam gweithredu i'w uno â 2320** |
| **PB 2327** | **Y Bwrdd Plismona i dderbyn adroddiad manwl ar y peilot Braenaru ym mis Hydref 2018.** | **Yn parhau** |
| **PB 2328** | **SCHTh i roi manylion i'r Heddlu ynghylch gwahoddiad a estynnwyd i HDP ddiweddaru Awdurdodau Unedol Powys ar blismona'r ffyrdd.** | **Yn parhau** |
| **PB 2329** | **Y PSC i drafod gyda thîm caffael HDP mewn perthynas â chais RMP am gytundeb.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2330** | **Y CC i ddarparu dadansoddiad ariannol o secondiadau ac ymrwymiadau cydweithredol.** | **Yn parhau** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2331** | **AD/CC i roi ystyriaeth bellach i 'sefydliad awdurdodedig' er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol a sefydliadol.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N DEILLIO O GYFARFOD 11/09/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 79** | **Mae'r CHTh a'r PG yn cytuno i'r cynnig a gyflwynwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â'r broses gwyno.** | **Gavin Lemon** |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

Derbyniwyd fod y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir.

PB 2319 – *Y CHTh a'r PS i gyfarfod gyda Jo Hopkins mewn perthynas â chyllid yn lle'r Ardoll Brentisiaethau* – Cafwyd trafodaeth ynghylch cadernid yr Ardoll Brentisiaethau yn y dyfodol gan nad yw trefniadau tymor hirach wedi'u cytuno eto.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â Chynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio'r Heddlu ar gyfer 2018/19 a pha un ai a oes gwaith wedi cychwyn ar gynllun 2019/20.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 i SCHTh.**

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

**Diweddariadau Gweithredol**

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch nifer o faterion gweithredol, gan gynnwys da byw wedi'u dwyn, lladrad yn Nhrostre a arweiniodd at 6 arést, lladrad yn y Drenewydd a lladrad yng Nghaerfyrddin, ond nid yn gyfyngedig i hynny.

Canmolodd y PG a'r CHTh waith da gan yr Uwch-arolygydd Robyn Mason, a gynhaliodd digwyddiad ar blismona gwledig yn fyw ar Facebook, yn ogystal â gwaith da ar weithgarwch cyffuriau trawsffin ac atal rêf anghyfreithlon yng Nghrucywel fis Awst.

Dywedodd y PG fod swyddogion wedi bod yn weithgar mewn digwyddiadau diwedd haf, gan gynnwys Sioe Sir Benfro, Taith Prydain, a'r digwyddiad Dyn Haearn yn Ninbych-y-pysgod. Fel rhan o'r ymgyrch 'Rhowch Ddiwrnod i Blismona', gwelwyd unigolion etholedig, sef Kirsty Williams AC, Ben Lake AS a

Glyn Davies AS, yn patrolio gyda swyddogion ac yn ymweld â gorsafoedd ym mis Awst a mis Medi.

Cafwyd trafodaeth ynghylch gwella cyfleoedd ymgysylltu i hyrwyddo straeon newyddion da a phlismona cadarnhaol ymysg cynghorwyr tref a sir.

**Diweddariadau Sefydliadol**

Nodwyd fod 10 swyddog heddlu wedi dioddef ymosodiadau ar ddyletswydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona, ac o ganlyniad i'r ffaith bod rhywrai wedi poeri ar swyddogion ar ddyletswydd, mae cyflau poeri wedi'u defnyddio.

**4. Diweddariad CHTh**

**Lleol**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i ymweliadau â'r Drenewydd a Llanelli, yn ogystal â diwrnod ymgysylltu cymunedol yn Rhydaman, a arweiniodd at ymatebion cadarnhaol iawn gan y cyhoedd mewn perthynas â'r prosiect teledu cylch cyfyng.

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynghylch cyfarfod ag arweinydd rhanbarthol Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, Russ Woolford.  Bydd trefniadau gyda Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn newid o 1 Ebrill 2019. Trafodwyd cytundeb ffurfiol gyda meysydd awyr Hwlffordd a'r Trallwng mewn perthynas â'u defnyddio i roi mwy o danwydd yn yr hofrennydd y tu allan i oriau.

Yn ogystal, rhoddodd y CHTh wybod i'r Bwrdd am gyfarfod sydd ar fin cael ei gynnal gydag ymddiriedolwyr Dyfed-Powys Diogel er mwyn trafod yr elusen, ei bresenoldeb ym Marchnad Dolgellau i drafod datblygiadau o ran gweithgarwch trawsffin, a'r angen i benodi pumed aelod i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Cenedlaethol**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â chyfarfod gyda Dr. Robert Jones o Ganolfan Llywodraethu Cymru mewn perthynas ag arian ychwanegol i gynnal ymchwil ar garchardai yng Nghymru.

**5. Pwnc Misol: Cwynion**

Cydnabu'r CHTh adroddiad gan yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) a holodd gyfres o gwestiynau am drefniant yr adran. Canmolodd y CHTh y gwaith a wnaed er mwyn gwella perfformiad. Mae nifer y dyddiad sydd eu hangen er mwyn dod i ddatrysiad wedi gostwng yn sylweddol.

Cydnabu GL fod achosion etifeddiaeth wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad yn flaenorol, fodd bynnag, yn dilyn ailstrwythuro yn 2014 a'r newidiadau canlyniadol, mae perfformiad wedi gwella, gyda dim ond 2 achos etifeddiaeth yn digwydd ar hyn o bryd o ganlyniad i sub-judice.  Nodwyd fod perfformiad Unedau Rheoli Sylfaenol ar draws yr Heddlu'n cael eu dal i gyfrif gan y Dirprwy Brif Gwnstabl (DBG).

Nodwyd fod perfformiad yr ASP mewn perthynas ag achosion sub-judice yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a bod y PG yn cwrdd â Catrin Evans o'r swyddfa honno'n rheolaidd er mwyn trafod achosion cyfredol.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh a'r PG yn cytuno i'r cynnig a gyflwynwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â'r broses gwyno.**

**Cam Gweithredu: Nicola Harris o SCHTh i fynd i gyfarfodydd 6 misol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gyda'r ASP.**

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi dyddiadau cyfarfodydd rhwng y PG a Catrin Evans, Cyfarwyddwr Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu dros Gymru, i SCHTh.**

Diweddarodd y PS y Bwrdd ynglŷn â chyfarfod o'i chymheiriaid a oedd yn cynnwys trafodaeth ynghylch newidiadau mawr i Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017 o 1 Ebrill 2019.

**Cam Gweithredu: Cyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan i gynnwys adnewyddiadau i Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017 ar ei agenda.**

Trafododd y Bwrdd sut y dylid ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â'r broses apelio newydd a amlinellir gan y diwygiadau i Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017. Nodwyd y byddai trafodaethau o gwmpas anghydfodau rhwng cymdogion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arbennig o fuddiol. Cytunodd y Bwrdd ar bwysigrwydd parhau â Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yr Heddlu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd eisiau gwneud cwyn yn erbyn swyddogion.

**Cam Gweithredu: Y Prif Uwch-arolygydd Vicky Evans i roi diweddariad ynglŷn â'r ddarpariaeth iechyd meddwl.**

**6. Eitemau Sefydlog**

**a) Adroddiad Monitro Cyllideb a Diweddariad gan y Grŵp Aur Cyllid**

Trafododd y Bwrdd y mecaneiddiad cadarn newydd sydd mewn grym i awdurdodi goramser. Dywedodd y PG ei fod yn bwysig adnabod arbedion refeniw cyn ymgysylltu â dalwyr cyllideb ynglŷn â pha feysydd y gellir eu rheoli'n fwy effeithiol. Nodwyd y byddai gwasanaethau sydd wedi'u caffael yn destun craffu er mwyn asesu pa arbedion y gellir eu gwneud. Dywedodd y PSA y byddai'n fuddiol adolygu ffigwr mis Medi er mwyn asesu effaith gwaith diweddar ac y byddai angen adolygiad realistig o'r alldro a ragwelir mewn perthynas â goramser.

**Cam Gweithredu: JB i ymgysylltu â'r tîm fetio mewn perthynas â phenodi aelodau staff newydd yn yr adran gyllid.**

**Cam Gweithredu: Cyflwyno adroddiad ariannol tymor canolig yng nghyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona.**

Cydnabu'r PSA y gwaith parhaus mewn perthynas â chydweithio i annog adroddiadau i fod yn dryloyw ac o safon dda. Hefyd, tynnodd y PSA sylw'r Bwrdd at waith gan y grŵp cynllun ariannol Tymor Canolig, cyhoeddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sy'n dweud nad yw fformiwla ariannu'r Swyddfa Gartref yn gwerthfawrogi'r pwysau a'r galw ar blismona, a'r angen ar gyfer cyfrif am oramser staff yr heddlu.

**Cam Gweithredu: Y CC i ddarparu amserlen glir o adrodd ariannol i gyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona.**

**b) Diweddariad ynghylch Rheoli Risg**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r defnydd o Fentanyl yn dilyn cyhoeddiad gan Heddlu De Cymru. Dywedodd y PG fod yr Heddlu wedi derbyn archwiliad Data Unplygrwydd Cofnodi Troseddau a arweiniodd at gydnabyddiaeth o welliant sylweddol gan Heddlu Dyfed-Powys, gyda chydymffurfiaeth yn codi o 66% i 88%.

**c) Torri Amodau Diogelwch Data**

Nododd y Bwrdd y ddogfen a ddarparwyd gan yr Uned Diogelu Data.

**8. Materion i'w Trafod**

**a) Brecsit**

Dywedodd y PG y byddai trafodaethau mewn perthynas â Brecsit yn rhan o'r agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu wythnos nesaf. Mynegodd y Bwrdd bryderon am borthladdoedd HDP yn dilyn ymadawiad Prydain o'r UE.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 11/09/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2332** | **Yr Heddlu i roi Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 i SCHTh.** | **JB** |
| **PB 2333** | **Nicola Harris o SCHTh i fynd i gyfarfodydd 6 misol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gyda'r ASP.** | **Nicola Harris SCHTh** |
| **PB 2334** | **Yr Heddlu i roi dyddiadau cyfarfodydd rhwng y PG a Catrin Evans, Cyfarwyddwr Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu dros Gymru, i SCHTh.** | **JB** |
| **PB 2335** | **Cyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan i gynnwys adnewyddiadau i Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017 ar ei agenda.** | **MH/JB** |
| **PB 2336** | **Y Prif Uwch-arolygydd Vicky Evans i roi diweddariad ynglŷn â'r ddarpariaeth iechyd meddwl.** | **Y Prif Uwch-arolygydd Vicky Evans** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2337** | **JB i ymgysylltu â'r tîm fetio mewn perthynas â phenodi aelodau staff newydd yn yr adran gyllid.** | **JB** |
| **PB 2338** | **Cyflwyno adroddiad ariannol tymor canolig yng nghyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona.** | **MH/CC** |
| **PB 2339** | **Y CC i ddarparu amserlen glir o adrodd ariannol i gyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona.** | **CC** |